


Gwastraff Niwclear: Problem Fawr Pŵer Niwclear heb ei Hateb



Mae gorsafoedd pŵer niwclear a chynhyrchu arfau niwclear yn creu gwastraff niwclear sy'n rhaid ei gadw rhag pobl a'r amgylchedd am filoedd o flynyddoedd. Does yr un cyfleuster storio gwastraff ymbelydrol lefel-uchel tymor-hir yn bod yn unlle yn y byd.

Beth yw gwastraff ymbelydrol?

Pan ddaw tanwydd wraniwm hesb allan o adweithydd niwclear, mae'n ymbelydrol iawn. Mae ymbelydredd yn dirywio'n naturiol dros amser, felly rhaid cadw gwastraff ymbelydrol mewn stordai diogel tan nad yw'n peryglu iechyd pobl mwyach. Mae'r cyfnod o amser yn amrywio yn ôl y math o wastraff, o rai diwrnodau gydag isotopau byrhoedlog i filiynau o flynyddoedd ar gyfer gwastraff ymbelydrol lefel-uchel.

Beth a wneir â gwastraff ymbelydrol ar hyn o bryd?

Caiff gwastraff niwclear ei storio ar safle'r orsaf bŵer niwclear yn y lle cyntaf, cyn cael ei anfon i Sellafield. Caiff gwastraff lefel-

uchel ei drin i echdynnu plwtoniwm ar gyfer arfau niwclear, ac yna'i storio yn Sellafield.

Caiff gwastraff lefel-isel ei storio yn Drigg ger Sellafield, sydd mewn perygl wrth i lefelau'r môr godi, gan ei fod ger yr arfordir.

Ymbelydredd a phroblemau iechyd

Gall ymbelydredd achosi niwed i strwythurau DNA ac ensymau celloedd byw, ac arwain ar ganser a llawer o effeithiau andwyol eraill ar iechyd.

Yn 2008 nododd ymchwil gan lywodraeth yr Almaen gynydd mewn lewcemia a mathau eraill o ganser ymhlith plant yn byw o fewn 5km i bob un o 16 gorsafoedd niwclear y wlad.

Ers damwain Chernobyl ym 1986, mae disgwyliad oes yn Belarus wedi gostwng o 20 mlynedd.

Ni wyddom o hyd beth fydd holl effeithiau niweidiol trychineb 2011 Fukushima yn Japan ar iechyd.

Beth yw cost hyn oll ?

Defnyddir dau draean o gyllideb Adran Ynni a Newid Hinsawdd y llywodraeth Brydeinig ar wastraff niwclear ac ar lanhau a diheintio cyfleusterau niwclear.

Bydd cost ceisio cadw gwastraff niwclear yn ddiogel yn faich ariannol am byth!

Felly beth yw'r ateb?

Does **dim** ateb gwyddonol i broblem gwastraff niwclear - ddim ar gyfer gwastraff y 60 mlynedd diwethaf o gynhyrchu, nac ar gyfer gwastraff a gynhyrchir yn y dyfodol.

Y cam cyntaf amlwg yw peidio â chreu **mw**y o wastraff ymbelydrol – a'r ail gam yw sicrhau y cedwir yr holl wastraff presennol:

- wedi ei ynysu oddi wrth yr ecosystem
- heb ei ailbroseu mewn unrhyw ffordd
- heb ei symud, wedi ei storio yn agos at lle cafodd ei gynhyrchu
- wedi ei fonitro beunydd
- wedi ei storio ar yr wyneb, â labelu clir
- wedi ei storio ar safleoedd wedi eu harwyddo a'u gwarchod yn dda
- â chofnodion manwl amdano ar gyfer cenedlaethau i ddod, ac
- ag adnoddau ariannol wedi eu neilltuo ar gyfer cynnal safleoedd storio.

**Dim Dympiau
Gwastraff Niwclear Newydd -
Dim yng Nghymru, Dim yn unlle!**



www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org

www.stophinkley.org
admin@stophinkley.org